DECHRAU ARNI

Cymdeithasau Elusennol: Cyfansoddiad Enghreifftiol

COMISIWN ELUSENNAU

Y Comisiwn Elusennau

Y Comisiwn Elusennau yw rheolydd annibynnol elusennau yng Nghymru a Lloegr. Ei nod yw rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr yn y ffordd orau bosibl er mwyn cynyddu effeithiolrwydd elusennau a ffydd a hyder y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn, ond nid oes rhaid i rai mathau arbennig o elusennau gofrestru. Mae tua 180,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r fframwaith yn wahanol yn yr Alban, ac nid yw'r Comisiwn yn rheoleiddio elusennau'r Alban.

Mae'r Comisiwn yn darparu amrywiaeth helaeth o gyngor a chanllawiau i elusennau a'u hymddiriedolwyr, ac yn aml iawn gall helpu i ddatrys problemau. Mae'n rhaid i elusennau cofrestredig sydd ag incwm blynyddol o fwy na £10,000 roi gwybodaeth flynyddol i'r Comisiwn. Mae pwerau eang gan y Comisiwn i ymyrryd ym materion elusen pan fydd pethau wedi mynd o'i le.

Charitable Associations: Model Constitution

Gall fod yn briodol i ffurfio cymdeithas anghorfforedig pan fydd y sefydliad:

- yn weddol fach o ran asedau;
- yn cynnwys aelodaeth;
- yn cael ei weinyddu gan ymddiriedolwyr elusen a gaiff eu hethol gan aelodau neu eu penodi i ddal swydd am gyfnodau penodol;
- am ystyried barn trigolion a sefydliadau lleol trwy gyfrwng aelodaeth neu fel defnyddwyr;
- yn dymuno ymgymryd â'i waith yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy ymdrechion gwirfoddol a chyfraniadau ei aelodau.

Os bydd aelodaeth gan sefydliad ond disgwylir iddo gael adnoddau sylweddol a/neu gyflogi staff ac ymwneud â dibenion elusennol sy'n cynnwys risgiau masnachol, fel arfer bydd yn fwy priodol i fabwysiadu ffurf cwmni elusennol y gellir defnyddio'r *Erthyglau Cymdeithasu Enghreifftiol* (GD1) ar ei gyfer.

Canllawiau i'w hystyried cyn dechrau

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i ddechrau drwy ddarllen y canllawiau canlynol ar ein gwefan:

- Yr wybodaeth gynhwysfawr o dan *Dechrau elusen*
- *Cofrestru fel Elusen* (CC21) - bydd y rhestr wirio o gwestiynau yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau i sefydlu'r elusen
- *Dewis a Pharatoi Dogfen Lywodraethol* (CC22) - mae'n rhoi cyngor ymarferol ar sut i gwblhau dogfen lywodraethol yr elusen a'r darpariaethau gwahanol y gall fod eu hangen
- *Yr Ymddiriedolwr Hanfodol - Yr hyn y mae angen i chi wybod* (CC3), sy'n nodi'r pethau sylfaenol y dylai pob ymddiriedolwr elusen eu gwybod

Y camau nesaf

1. Cwblhau'r cyfansoddiad

Pan fyddwch wedi penderfynu gwneud cais i gofrestru fel cymdeithas elusennol, darllenwch y cyfansoddiad a'r canllawiau cysylltiedig yn ofalus.

Mae rhai cymalau yn cynnwys llefydd gwag y bydd rhaid i chi eu llenwi.

Mae'r cyfansoddiad enghreifftiol yn bwriadu bod yn ddigon hyblyg i ddelio â'r rhan fwyaf o achosion. Os hoffech chi gynnwys darpariaethau arbennig neu gymhleth sydd heb eu cynnwys ynddo, dylech chi ystyried gofyn i gyfreithiwr am gymorth. Gwnewch unrhyw newidiadau yn glir gan esbonio pam bod angen eu gwneud. Bydd hyn yn ein helpu ni i ystyried eich cais mor gyflym â phosibl. Ni allwn warantu y byddwn yn derbyn pob sefydliad sy'n defnyddio'r cyfansoddiad enghreifftiol fel sefydliad elusennol. Mae'n rhaid i ni ystyried pob cais ar wahân.

2. Mabwysiadu'r cyfansoddiad

Pan fyddwch wedi cwblhau'r cyfansoddiad, mae'n rhaid i aelodau'r sefydliad ei fabwysiadu.

3. Gwneud cais i gofrestru

I gofrestru elusen newydd, gwnewch gais ar-lein. (Mae'r deunyddiau gwneud cais ar-lein yn cynnwys *Gwneud cais i gofrestru - canllawiau*.)

Atodwch gopi o'ch cyfansoddiad terfynol wedi'i lofnodi a fabwysiadwyd gan yr aelodau a'ch *Datganiad yr Ymddiriedolwyr* wedi'i lofnodi i'ch cais. Os na allwch atodi'r dogfennau hyn i'ch cais ewch ymlaen i wneud cais ar-lein a byddwn yn anfon cyfarwyddiadau atoch drwy'r e-bost sy'n dangos sut i'w hanfon atom.

Os na allwch wneud cais ar-lein, cysylltwch â'r Comisiwn Elusennau Uniongyrchol. Y ffordd orau i gysylltu â ni yw trwy'r e-bost (gan ddefnyddio'r ddogfen *Cysylltu â ni* o hafan ein gwefan). Os hoffech chi siarad â rhywun dros y ffôn gallwch ffonio ein canolfan gyswllt ar 0845 300 0218.

4. Faint fydd hi'n cymryd?

Fel rheol gallwn wneud penderfyniad o fewn 15 diwrnod gwaith os yw'n sefydliad:

- sy'n defnyddio ein geiriau enghreifftiol ar gyfer ei amcanion (fel y cânt eu nodi yn *Amcanion elusennol enghreifftiol* ar ein gwefan);
- dangos bod ei weithgareddau yn cyd-fynd â'r amcanion;
- dangos bod unrhyw fudd preifat yn atodol ac wedi'i reoli'n briodol; ac
- yn defnyddio ein dogfen lywodraethol enghreifftiol.

Bydd angen ystyried ceisiadau eraill yn fwy gofalus ac felly bydd yn cymryd yn hwy (yn enwedig os yw dibenion yr elusen yn newydd a/neu ar ffiniau'r hyn sy'n elusennol).

Nodiadau

Canllawiau i'r Cyfansoddiad Enghreifftiol

Nodwch ddyddiad y cyfarfod lle y penderfynwyd mabwysiadu'r cyfansoddiad hwn.

Cymal 1 - Mae dwy ran i'r cyfansoddiad. Mae rhan 1 yn ymdrin â dibenion yr elusen a sut y gellir defnyddio ei harian a'i heiddo arall. Mae hefyd yn cynnwys y pwerau i newid y cyfansoddiad a dirwyn yr elusen i ben. Mae rhan 2 yn amlinellu'r darpariaethau gweinyddol, gan gynnwys aelodaeth, penodi ymddiriedolwyr elusen, cyfarfodydd aelodau ac ymddiriedolwyr a'r pwerau sydd ar gael i ymddiriedolwyr o ran gweinyddu'r elusen. Gellir newid y darpariaethau yn rhan 1 dim ond gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio mewn cyfarfod ond gall y rhai yn rhan 2 gael eu newid gan fwyafrif syml.

Cymal 2 - Nodwch enw'r elusen. Yn gyffredinol, gall y Comisiwn dderbyn unrhyw enw oni bai ei fod yn groes i'r egwyddorion a bennwyd yn adran 6 Deddf Elusennau 1993, a esbonnir yn ein canllaw *Cofrestru fel Elusen* (CC21) a'n Canllaw Gweithredol *Enwau Elusennau* ar ein gwefan. Yn fras, ni ddylai'r enw fod yn gamarweiniol, yn dramgwyddus neu'n debygol o gael ei ddrysu gydag enw elusen sydd eisoes yn bod.

Cymal 3 - Nodwch i ba bwrpas y ffurfiwyd yr elusen. Rhaid i amcanion elusen gael eu mynegi mewn termau elusennol yn unig ac mae hyn yn golygu bod angen drafftio yn fanwl. Mae canllawiau ar gael yn *Dewis a Pharatoi Dogfen Lywodraethol* (CC22) ac mae amcanion enghreifftiol sy'n ymdrin â rhai o'r dibenion elusennol mwyaf cyffredin ar gael ar ein gwefan. Yr elfennau allweddol i'w cynnwys yw:

- y pwrpas ei hun (e.e. sefydlu a rhedeg ysgol);
- y bobl a all gael budd (yn ein henghraifft ni, plant oedran ysgol); ac, os yw'n briodol
- unrhyw derfynau daearyddol a all fod eu hangen i ddiffinio'r ardal o fudd. Ni fydd angen gwneud hyn bob tro. Os ydych yn cynnwys ardal o fudd, mae'n arferol i'w diffinio trwy gyfeirio at ardal llywodraeth leol: mae hyn yn cynnig y fantais o fod yn eglur ac yn syml, ond gall greu problemau os yw'r ardal yn cael ei newid neu ei diddymu yn y dyfodol.

Os bydd yr elusen yn gweithredu yn yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon dylech gynnwys y geiriad mewn cromfachau sgwâr i fodloni gofynion y gyfraith elusennau yn y wlad honno/gwledydd hynny, gan ddileu fel y bo angen os yw'r elusen yn gweithredu yn un o'r ddwy wlad.

Cyfansoddiad

wedi'i fabwysiadu ar y 20

RHAN 1

1. Mabwysiadu'r cyfansoddiad

Gweinyddir a rheolir y gymdeithas a'i heiddo yn unol â'r darpariaethau yn Rhannau 1 a 2 y cyfansoddiad hwn.

2. Enw

Enw'r gymdeithas yw

.....

.....

(ac yn y ddogfen hon fe'i gelwir yr elusen).

3. Amcanion

Amcanion yr elusen ('yr amcanion') yw:

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

[Ni fydd unrhyw beth yn y cyfansoddiad hwn yn awdurdodi defnyddio eiddo'r elusen ar gyfer dibenion sydd heb fod yn elusennol yn unol ag adran 7 o Ddeddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a/neu adran 2 o Ddeddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008.]

Cymal 4(1) - mae'n yn amlinellu hawl ymddiriedolwyr i gael costau rhesymol ac mae'n adlewyrchu darpariaethau statudol Deddf 1993 ynglŷn â hawl ymddiriedolwr elusen i gael budd o yswiriant indemniad ymddiriedolwr. Mae wedi'i gynnwys yn y cyfansoddiad i roi gwybod i bobl sy'n ymwneud â'r elusen.

Cymal 4(2) - mae'n yn adlewyrchu gofynion y gyfraith elusennol bod rhaid i incwm ac eiddo elusen gael eu defnyddio i hyrwyddo ei hamcanion yn unig ac nid i gynnig budd i'r aelodau neu'r ymddiriedolwyr elusen (ac eithrio fel y caniateir gan y ddogfen lywodraethol (gweler cymal 5) neu bŵer penodol arall). Mae dyletswydd ar yr ymddiriedolwyr i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n gywir yn unol â'r egwyddor hon.

Cymal 5 - Gall ymddiriedolwyr elusen gael budd o'u helusen dim ond os oes awdurdodiad cyfreithiol penodol ganddynt i wneud hynny (megis cymal yn y cyfansoddiad). Mae'r cyfyngiad hwn yn cynnwys pobl sydd â chysylltiad agos â'r ymddiriedolwr ('unigolion cysylltiedig' - mae'r term hwn wedi'i ddiffinio yng nghymal 34 Dehongli). Mae'r cymal hwn yn egluro'r cyfyngiadau sy'n gymwys i'r ymddiriedolwyr elusen. Hyd yn oed os yw ymddiriedolwyr wedi'u caniatáu i gael budd o'r elusen, rhaid i hyn ddigwydd dim os yw'r budd er lles yr elusen. Mae ein canllaw *Treuliau a thaliadau ymddiriedolwyr (CC11)* yn rhoi mwy o wybodaeth am fuddion ymddiriedolwyr.

Mae'r cymal hwn yn caniatáu i leiafrif o'r ymddiriedolwyr elusen neu unigolion cysylltiedig gael taliadau a buddion eraill mewn rhai achosion (megis ar gyfer nwyddau a gwasanaethau y maen nhw'n eu cyflenwi i'r elusen), yn amodol ar y rheolaethau a nodwyd. Mae'r dewis hefyd yn caniatáu i fathau eraill o fudd ymddiriedolwyr, yn amodol ar gydsyniad blaenorol y Comisiwn.

Nid yw unrhyw ran o'r cymal yn caniatáu i'r ymddiriedolwyr dderbyn tâl am weithredu fel ymddiriedolwr.

Cymal 5(2)(a) - Os bydd eich elusen yn cynnig budd i'r holl drigolion lleol mewn ardal ddaearyddol benodol (e.e. fel cymdeithas gymunedol) efallai yr hoffech roi'r canlynol yn ei le: 'Gall ymddiriedolwr neu unigolyn cysylltiedig gael budd gan

4. Defnyddio incwm ac eiddo

(1) Defnyddir incwm ac eiddo'r elusen dim ond er mwyn hybu'r amcanion.

(a) Mae hawl gan ymddiriedolwr elusen i gael ei ad-dalu o eiddo'r elusen neu gall dalu o eiddo o'r fath dreuliau rhesymol sydd wedi codi'n briodol wrth iddo neu iddi weithredu ar ran yr elusen.

(b) Gall ymddiriedolwr elusen gael budd o yswiriant indemniad ymddiriedolwr a brynwyd gan yr elusen yn unol â'r amodau, ac yn ddarostyngedig i'r amodau yn adran 73F Deddf Elusennau 1993.

(2) Ni all incwm neu eiddo'r elusen gael eu talu neu eu trosglwyddo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy gyfrwng difidend, bonws neu fel arall trwy gyfrwng elw i unrhyw aelod o'r elusen. Nid yw hyn yn atal aelod nad yw hefyd yn ymddiriedolwr rhag derbyn:

(a) budd gan yr elusen yn ei rinwedd fel buddiolwr yr elusen;

(b) tâl rhesymol a phriodol am unrhyw nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir i'r elusen.

5. Buddion a thaliadau i ymddiriedolwr elusen ac unigolion cysylltiedig

(1) Darpariaethau cyffredinol

Ni all unrhyw ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig:

(a) prynu neu dderbyn unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan yr elusen ar delerau sy'n well na'r rhai sy'n gymwys i aelodau'r cyhoedd;

(b) gwerthu nwyddau, gwasanaethau neu unrhyw fudd mewn tir i'r elusen;

(c) cael ei gyflogi gan yr elusen, neu dderbyn unrhyw dâl gan yr elusen;

(ch) cael unrhyw fudd ariannol arall gan yr elusen;

oni bai bod y taliad wedi'i ganiatáu gan is-gymal (2) o'r cymal hwn neu wedi'i awdurdodi gan y llys neu gan y Comisiwn Elusennau ('y Comisiwn'). Yn y cymal hwn ystyr 'budd ariannol' yw budd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sydd naill ai'n arian neu sydd â gwerth ariannol.

(2) Cwmpas a phwerau sy'n caniatáu buddion ymddiriedolwyr neu unigolion cysylltiedig

(a) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig dderbyn budd o'r elusen yn ei rinwedd fel buddiolwr yr elusen ar yr amod nad yw'r mwyafrif o'r ymddiriedolwyr yn cael budd yn y modd hwn.

Nodiadau

yr elusen fel buddiolwr ar yr amod ei fod ar gael yn gyffredinol i fuddiolwyr yr elusen.'

Cymal 5(2)(ch) - Dylai'r elusen gofnodi swm a thelerau benthyciad y cyfarwyddwr neu'r unigolyn cysylltiedig.

(b) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig arwyddo contract ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, neu nwyddau sy'n cael eu cyflenwi mewn perthynas â darparu gwasanaethau, i'r elusen lle y caniateir hynny yn unol â'r amodau yn adran 73A i 73C Deddf Elusennau 1993, ac yn ddarostyngedig i'r amodau hynny.

(c) Yn amodol ar is-gymal (3) y cymal hwn gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig roi nwyddau i'r elusen nad ydynt yn cael eu cyflenwi mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir i'r elusen gan ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig.

(ch) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig dderbyn llog ar arian a fenthycwyd i'r elusen ar gyfradd resymol a phriodol na ddylai fod yn fwy na chyfradd banc Banc Lloegr (a elwir hefyd yn gyfradd sylfaenol).

(d) Gall yr ymddiriedolwr elusen neu'r unigolyn cysylltiedig gael rhent am adeiladau a osodir gan yr ymddiriedolwr neu'r unigolyn cysylltiedig â'r elusen. Mae'n rhaid i swm y rhent a thelerau eraill y brydles fod yn rhesymol ac yn briodol. Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwr elusen dan sylw fod yn absennol o unrhyw gyfarfod lle mae cynnig o'r fath neu'r rhent neu delerau eraill y brydles yn cael eu trafod.

(dd) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig gymryd rhan mewn gweithgareddau masnachu a gweithgareddau codi arian arferol yr elusen ar yr un telerau ag aelodau'r cyhoedd.

(3) Taliad am gyflenwi nwyddau yn unig - rheolaethau

Gall yr elusen a'i hymddiriedolwyr elusen ddibynnu ar yr awdurdod a ddarperir gan is-gymal (2)(c) y cymal hwn dim ond os yw pob un o'r amodau canlynol wedi'u bodloni:

(a) Mae swm neu uchafswm y taliad am y nwyddau wedi'i bennu mewn cytundeb ysgrifenedig rhwng yr elusen a'r ymddiriedolwr elusen neu'r unigolyn cysylltiedig sy'n cyflenwi'r nwyddau ('y cyflenwr') ac o dan y cytundeb bydd y cyflenwr yn cyflenwi'r nwyddau dan sylw i'r elusen neu ar ei rhan.

(b) Nid yw swm neu uchafswm y taliad am y nwyddau yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau ar gyfer cyflenwi'r nwyddau dan sylw.

(c) Mae'r ymddiriedolwyr elusen eraill yn fodlon ei fod er lles gorau'r elusen i arwyddo contract gyda'r cyflenwr yn hytrach na rhywun sydd heb fod yn ymddiriedolwr elusen neu'n unigolyn cysylltiedig. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen bwyso a mesur manteision arwyddo contract gydag ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig yn erbyn anfanteision gwneud hynny.

(ch) Mae'r cyflenwr yn absennol o'r rhan o unrhyw gyfarfod lle y trafodir y cynnig i arwyddo contract neu drefniadau gydag ef neu hi ynghylch cyflenwi nwyddau i'r elusen.

(d) Nid yw'r cyflenwr yn pleidleisio ar unrhyw fater o'r fath ac nid yw'n cael ei gyfrif wrth gyfrifo a yw cworwm yr ymddiriedolwyr elusen yn bresennol yn y cyfarfod.

(dd) Mae'r rheswm dros eu penderfyniad yn cael ei gofnodi gan yr ymddiriedolwyr elusen yn y llyfr cofnodion.

(e) Nid yw mwyafrif o'r ymddiriedolwyr elusen sydd yn eu swyddi yn derbyn tâl neu daliadau wedi'u hawdurdodi gan gymal 5.

(4) Yn is-gymalau (2) a (3) y cymal hwn:

(a) mae 'yr elusen' yn cynnwys unrhyw gwmni lle mae'r elusen yn:

(i) dal mwy na 50% o'r cyfranddaliadau; neu

(ii) rheoli mwy na 50% o'r hawliau pleidleisio sy'n gysylltiedig â'r cyfranddaliadau; neu

(iii) cael hawl i benodi un neu ragor o'r ymddiriedolwyr i fwrdd y cwmni.

(b) mae 'unigolyn cysylltiedig' yn cynnwys unrhyw un o fewn y diffiniad a bennwyd yng nghymal 34 (Dehongli).

6. Diddymu

(1) Os yw'r aelodau yn penderfynu diddymu'r elusen bydd yr ymddiriedolwyr yn parhau yn y swydd fel ymddiriedolwyr elusen ac yn gyfrifol am ddirwyn materion yr elusen i ben yn unol â'r cymal hwn.

(2) Rhaid i'r ymddiriedolwyr gasglu holl asedau'r elusen a rhaid iddynt dalu neu wneud darpariaeth ar gyfer holl rwymedigaethau'r elusen.

(3) Rhaid i'r ymddiriedolwyr ddefnyddio unrhyw eiddo neu arian sy'n weddill:

(a) yn uniongyrchol ar gyfer yr amcanion;

(b) ei drosglwyddo i unrhyw elusen neu elusennau ar gyfer yr un dibenion â'r elusen neu ddibenion tebyg;

(c) mewn rhyw ffordd arall y gall y Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ('y Comisiwn') ei chymeradwyo yn ysgrifenedig ymlaen llaw.

(4) Gall yr aelodau basio penderfyniad cyn neu ar yr un pryd â'r penderfyniad i ddiddymu'r elusen sy'n pennu sut y bydd yr ymddiriedolwyr yn defnyddio eiddo neu asedau'r elusen sy'n weddill a rhaid i'r ymddiriedolwyr gydymffurfio â'r penderfyniad os yw'n cyd-fynd â pharagraffau (a) - (c) yn is-gymal (3) uchod.

(5) Ni fydd asedau net yr elusen yn cael eu talu neu eu dosbarthu i aelodau'r elusen mewn unrhyw amgylchiadau (ac eithrio i aelod sy'n elusen ei hun).

Is-gymal 6(6) - Mae Deddf Elusennau 1993 yn pennu rhwymedigaethau cyfrifyddu elusennau: gweler ein gwefan am arweiniad pellach.

(6) Rhaid i'r ymddiriedolwyr hysbysu'r Comisiwn yn brydlon bod yr elusen wedi cael ei diddymu. Os yw'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr anfon cyfrifon yr elusen i'r Comisiwn ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu a ddiweddodd cyn ei diddymiad, rhaid iddynt anfon cyfrifon terfynol yr elusen i'r Comisiwn.

7. Diwygio'r cyfansoddiad

(1) Gall yr elusen ddiwygio unrhyw ddarpariaeth sydd wedi'i gynnwys yn Rhan 1 y cyfansoddiad hwn ar yr amod:

(a) ni ellir gwneud unrhyw ddiwygiad a fyddai'n cael yr effaith o beidio â'i gwneud yn elusen yn ôl y gyfraith;

(b) ni all unrhyw ddiwygiad gael ei wneud i newid yr amcanion pe byddai'r newid hwn yn tanseilio neu'n groes i amcanion blaenorol yr elusen;

(c) na all unrhyw ddiwygiad gael ei wneud i gymalau 4 neu 5 heb ganiat¬âd ysgrifenedig ymlaen llaw y Comisiwn;

(ch) bod unrhyw benderfyniad i ddiwygio darpariaeth Rhan 1 y cyfansoddiad hwn yn cael ei basio gan ddim llai na dwy ran o dair o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol.

(2) Gall unrhyw ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn Rhan 2 y cyfansoddiad hwn gael ei diwygio, ar yr amod bod unrhyw ddiwygiad o'r fath yn cael ei wneud trwy benderfyniad a basiwyd gan fwyafrif syml o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol.

(3) Bydd copi o unrhyw benderfyniad sy'n diwygio'r cyfansoddiad hwn yn cael ei anfon i'r Comisiwn o fewn ugain diwrnod ar hugain o'r dyddiad y cafodd ei basio.

Rhan 2

Cymal 8 - I gael cyngor ac arweiniad ar arferion gorau rhedeg aelodaeth, gweler *Elusennau Aelodaeth* (RS7) ar ein gwefan.

8. Aelodaeth

(1) Mae aelodaeth yn agored i unigolion sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn neu sefydliadau sydd wedi'u cymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr.

(2) (a) Gall yr ymddiriedolwyr wrthod cais am aelodaeth dim ond, trwy weithredu'n rhesymol ac yn briodol, os teimlant ei fod er lles gorau'r elusen i wrthod y cais.

(b) Rhaid i'r ymddiriedolwyr hysbysu'r ceisydd yn ysgrifenedig am y rhesymau dros wrthod ei gais o fewn ugain diwrnod ar hugain o'r penderfyniad.

(c) Rhaid i'r ymddiriedolwyr ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig y gall y ceisydd eu cyflwyno am y penderfyniad. Rhaid i benderfyniad yr ymddiriedolwyr yn dilyn unrhyw sylwadau ysgrifenedig gael ei gyfleu i'r ceisydd yn ysgrifenedig ond bydd yn derfynol.

Nodiadau

Is-gymal 8(4) - Mae'n bwysig iawn o ran gweinyddiaeth dda yr elusen i gadw'r gofrestr aelodau yn gyfoes: gall methu â gwneud hyn achosi nifer o broblemau, gan gynnwys anawsterau difrifol wrth alw cyfarfodydd cyffredinol blynyddol neu arbennig. Rhaid i'r ymddiriedolwyr sicrhau eu bod yn trin data personol yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 1998.

Is-gymal 9(3) - Dylai'r rhybudd ar gyfer unrhyw gyfarfod cyffredinol atgoffa aelodau o'r gofyniad hwn. Byddem yn argymell fod bwlch rhesymol rhwng y dyddiad cau ar gyfer talu tanysgrifiadau (neu unrhyw daliadau rheolaidd eraill y bydd aelodau yn eu talu i'r elusen) a chynnal cyfarfod cyffredinol er mwyn lleihau'r perygl o fod yn broblem weinyddol i'r elusen.

Cymal 10 - Darparwn arweiniad ar gyfarfodydd yn *Elusennau a Chyfarfodydd* (CC48), wedi'i gynhyrchu mewn cydweithrediad ag ICSA (Sefydliad Ysgrifenyddion a Gweinyddwyr Siartredig).

(3) Nid oes modd trosglwyddo aelodaeth i unrhyw un arall.

(4) Rhaid i'r ymddiriedolwyr gadw cofrestr o enwau a chyfeiriadau'r aelodau sy'n rhaid bod ar gael i unrhyw aelod os gofynnir amdani.

9. Terfynu aelodaeth

Mae aelodaeth yn cael ei therfynu:

(1) os yw'r aelod yn marw neu, yn achos sefydliad, os yw'n peidio â bodoli;

(2) os yw'r aelod yn ymddiswyddo trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r elusen oni bai, ar ôl ymddiswyddo, byddai llai na dau aelod;

(3) os yw unrhyw swm y mae'r elusen yn aros i'r aelod ei dalu heb gael ei dalu yn llawn o fewn chwe mis o'r dyddiad y mae'n daladwy arno;

(4) yw aelodaeth aelod yn cael ei therfynu trwy benderfyniad yr ymddiriedolwyr mai dyma sydd er lles gorau'r elusen. Gall penderfyniad i derfynu aelodaeth unrhyw aelod gael ei basio dim ond:

(a) os yw'r aelod wedi cael rhybudd ysgrifenedig o un diwrnod ar hugain o leiaf am gyfarfod yr ymddiriedolwyr lle bydd y cynnig yn cael ei drafod a'r rhesymau pam y bwriedir ei gynnig;

(b) os yw'r aelod neu, yn ôl dewis yr aelod, gynrychiolydd yr aelod (nad oes rhaid iddo neu iddi fod yn aelod o'r elusen) wedi cael caniatâd i gyflwyno sylwadau yn y cyfarfod.

10. Cyfarfodydd cyffredinol

(1) Rhaid i'r elusen gynnal cyfarfod cyffredinol o fewn deuddeg mis o ddyddiad mabwysiadu'r cyfansoddiad hwn.

(2) Rhaid cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mhob blwyddyn ddilynol ac ni all mwy na phymtheg mis fynd heibio rhwng cyfarfodydd cyffredinol blynyddol olynol.

(3) Bydd pob cyfarfod cyffredinol heblaw cyfarfodydd cyffredinol blynyddol yn cael eu galw'n gyfarfodydd cyffredinol arbennig.

(4) Gall yr ymddiriedolwyr alw cyfarfod cyffredinol arbennig unrhyw bryd.

(5) Rhaid i'r ymddiriedolwyr alw cyfarfod cyffredinol arbennig os yw o leiaf deg aelod neu un rhan o ddeg o'r aelodaeth, p'un bynnag yw'r mwyaf, yn gofyn iddynt wneud hynny trwy gyflwyno cais ysgrifenedig. Rhaid i'r cais nodi natur y busnes sydd i'w drafod. Os nad yw'r ymddiriedolwyr yn llwyddo i gynnal y cyfarfod cyn pen wyth diwrnod ar hugain o'r cais, gall yr aelodau alw cyfarfod cyffredinol arbennig ond drwy wneud hynny rhaid iddynt gydymffurfio â darpariaethau'r cyfansoddiad hwn.

11. Rhybudd

Is-gymal 11(1) - Nid yw 'diwrnodau clir' yn cynnwys y diwrnod pan fyddai'r rhybudd wedi cael ei dderbyn gan yr aelod neu'r diwrnod y cynhelir y cyfarfod - gweler is-gymal 31(5)(c). Mae Adran 81 Deddf Elusennau 1993 yn disgrifio sut y gellir rhoi rhybudd trwy'r post. Yn fras, gall yr elusen anfon rhybudd at bob ymddiriedolwr i'r cyfeiriad yn y DU a gedwir yng nghofnodion yr elusen: nid oes angen rhoi rhybudd i ymddiriedolwyr sy'n byw y tu allan i'r DU.

(1) Y cyfnod hysbysu lleiaf sy'n ofynnol i gynnal unrhyw gyfarfod cyffredinol yr elusen yw pedwar ar ddeg diwrnod clir o'r dyddiad y bernir bod y rhybudd wedi'i roi.

(2) Gall cyfarfod cyffredinol gael ei alw trwy roi llai o rybudd, os yw pob un o'r aelodau sydd â hawl i fod yn bresennol a phleidleisio yn cytuno.

(3) Rhaid i'r rhybudd nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod a natur gyffredinol y busnes sydd i'w drafod. Os yw'r cyfarfod yn gyfarfod cyffredinol blynyddol, rhaid i'r rhybudd nodi hynny.

(4) Rhaid i'r rhybudd gael ei roi i bob aelod ac i'r ymddiriedolwyr.

12. Cworwm

Is-gymal 12(1) - Mae hyn yn golygu bod rhaid i gworwm fod yn bresennol pan fydd mater yn cael ei drafod ac mae pleidlais yn cael ei fwrw arno, er mwyn i'r penderfyniad gael ei wneud yn ddilys. Os yw'r cyfarfod yn troi'n gyfarfod heb gworwm wedi hyn, ni fydd hyn yn annilysu'r penderfyniadau cynharach, mewn cyfarfod sydd â chworwm.

Is-gymal 12(2)(a) - Nodwch y ffigur ar gyfer y cworwm. Dylid fod yn ofalus wrth osod hwn. Os yw'n rhy uchel, gall unrhyw absenoldebau ei gwneud hi'n anodd cynnal cyfarfod dilys. Os yw'n rhy isel, gallai lleiafrif bach gael dylanwad afresymol. Sylwch fod is-gymalau 12(4)-(6) yn amlinellu'r drefn ar gyfer delio â sefyllfaoedd pan nad oes cworwm yn y cyfarfod.

(1) Ni chaiff unrhyw fusnes ei drafod mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol oni bai bod cworwm yn bresennol.

(2) Cworwm yw:

(a) [ ] aelod sydd â hawl i bleidleisio ar y busnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod; neu

(b) un rhan o ddeg o gyfanswm yr aelodaeth ar y pryd,

p'un bynnag yw'r mwyaf.

(3) Bydd cynrychiolydd awdurdodedig aelod-sefydliad yn cael ei gyfrif yn y cworwm.

(4) Os:

(a) nad yw cworwm yn bresennol cyn pen hanner awr o'r amser a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod; neu

(b) yn ystod cyfarfod mae cworwm yn peidio â bod yn bresennol,

caiff y cyfarfod ei ohirio tan amser a lleoliad sydd i'w bennu gan yr ymddiriedolwyr.

(5) Rhaid i'r ymddiriedolwyr ailgynnull y cyfarfod a rhaid iddynt roi o leiaf saith diwrnod clir o rybudd ar gyfer y cyfarfod a ailgynullwyd gan nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod.

Is-gymal 12(6) - Sylwch fod y ddarpariaeth hon yn caniatáu i'r cyfarfod sydd wedi'i aildrefnu fynd rhagddo heb fod cworwm yn bresennol o fewn 15 munud o'r amser dechrau a bennwyd. Mae hefyd yn golygu y bydd nifer yr aelodau sy'n bresennol 15 munud ar ôl yr amser a bennwyd ar gyfer dechrau'r cyfarfod yn ffurfio'r cworwm os nad oes modd cael y cworwm a fynnir yn is-gymal 12(2).

(6) Os nad yw cworwm yn bresennol yn y cyfarfod a ailgynullwyd cyn pen pymtheg munud o'r amser a drefnwyd ar gyfer dechrau'r cyfarfod, bydd yr aelodau sy'n bresennol ar y pryd yn ffurfio cworwm ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

13. Cadeirydd

(1) Bydd cyfarfodydd cyffredinol yn cael eu cadeirio gan y sawl sydd wedi cael ei ethol fel Cadeirydd.

(2) Os nad oes unigolyn o'r fath neu os nad yw ef neu hi yn bresennol cyn pen pymtheg munud o'r amser a bennwyd ar gyfer y cyfarfod bydd ymddiriedolwr sydd wedi'i enwebu gan yr ymddiriedolwyr yn cadeirio'r cyfarfod.

(3) Os mai dim ond un ymddiriedolwr sy'n bresennol ac yn barod i weithredu, bydd ef neu hi yn cadeirio'r cyfarfod.

(4) Os nad yw ymddiriedolwr yn bresennol ac yn barod i gadeirio'r cyfarfod cyn pen pymtheg munud ar ôl yr amser a bennwyd ar gyfer ei gynnal, rhaid i'r aelodau sy'n bresennol ac sydd â hawl i bleidleisio ddewis un o'u nifer i gadeirio'r cyfarfod.

Cymal 14 - Pŵer dewisol yw hwn i'r aelodau ohirio cyfarfod â chworwm - pan fydd y cyfarfod yn cael ei ailgynnull rhaid cael cworwm. Mae'r ddarpariaeth hon yn wahanol i'r darpariaethau gohirio yng Nghymal 12 sydd heb fod yn ddewisol a rhaid eu defnyddio pan nad oes cworwm mewn cyfarfod cyffredinol.

14. Gohirio

(1) Gall yr aelodau sy'n bresennol mewn cyfarfod benderfynu gohirio'r cyfarfod.

(2) Rhaid i'r sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod benderfynu dyddiad, amser a lleoliad ar gyfer ailgynnull y cyfarfod oni bai bod y manylion hynny wedi'u pennu yn y penderfyniad.

(3) Ni chaiff unrhyw fusnes ei drafod mewn cyfarfod sydd wedi'i ohirio oni bai y gellid fod wedi'i gynnal yn briodol yn y cyfarfod pe na fyddai'r gohiriad wedi digwydd.

(4) Os yw cyfarfod yn cael ei ohirio trwy benderfyniad yr aelodau am fwy na saith diwrnod, bydd o leiaf saith diwrnod clir o rybudd yn cael ei roi ar gyfer y cyfarfod a ailgynnullwyd gan nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod.

15. Pleidleisiau

(1) Bydd pob aelod yn cael un bleidlais ond os oes yr un nifer o bleidleisiau bydd y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod yn cael pleidlais fwrw yn ogystal ag unrhyw bleidlais arall a all fod ganddo neu ganddi.

(2) Bydd penderfyniad ysgrifenedig wedi'i arwyddo gan bob aelod (neu yn achos aelod sy'n sefydliad, gan ei gynrychiolydd awdurdodedig) a fyddai wedi bod â hawl i bleidleisio arno pe byddai wedi cael ei gynnig mewn cyfarfod cyffredinol, yn weithredol. Gall gynnwys sawl copi, pob un wedi'i arwyddo gan neu ar ran un neu fwy o aelodau.

Cymal 16 - Mae sefydliadau sy'n aelodau ('aelodau corfforedig') yn cael yr un hawliau a dyletswyddau ag aelodau unigol. Mae ein hadroddiad ymchwil *Elusennau Aelodaeth* (RS7) yn darparu cyngor ac arweiniad ar reoli aelodau corfforedig.

16. Cynrychiolwyr cyrff eraill

(1) Gall unrhyw sefydliad sy'n aelod o'r elusen enwebu unrhyw unigolyn i weithredu fel ei gynrychiolydd mewn unrhyw gyfarfod o'r elusen.

(2) Rhaid i'r sefydliad hysbysu'r elusen yn ysgrifenedig am enw ei gynrychiolydd. Ni fydd hawl gan yr enwebai gynrychioli'r sefydliad mewn unrhyw gyfarfod oni bai bod yr elusen wedi derbyn yr hysbysiad. Gall yr enwebai barhau i gynrychioli'r sefydliad nes bod yr elusen yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig i'r gwrthwyneb.

(3) Bydd unrhyw hysbysiad a roddir i'r elusen yn dystiolaeth derfynol bod hawl gan yr enwebai i gynrychioli'r sefydliad neu fod ei awdurdod wedi cael ei ddiddymu. Ni fydd yn ofynnol i'r elusen ystyried a yw'r enwebai wedi cael ei benodi'n briodol gan y sefydliad.

17. Swyddogion ac ymddiriedolwyr

(1) Rheolir a gweinyddir yr elusen a'i heiddo gan bwyllgor sy'n cynnwys y swyddogion a'r aelodau eraill a etholir yn unol â'r cyfansoddiad hwn. Bydd y swyddogion ac aelodau eraill y pwyllgor yn ymddiriedolwyr yr Elusen ac yn y cyfansoddiad hwn fe'i gelwir gyda'i gilydd 'yr ymddiriedolwyr'.

(2) Bydd y swyddogion canlynol gan yr elusen:

(a) Cadeirydd,

(b) Ysgrifennydd,

(c) Trysorydd.

(3) Rhaid i ymddiriedolwr fod yn aelod o'r elusen neu'n gynrychiolydd enwebedig sefydliad sy'n aelod o'r elusen.

(4) Ni all unrhyw un gael ei benodi fel ymddiriedolwr pe byddai ef neu hi wedi'i wahardd rhag gweithredu o dan ddarpariaethau cymal 20.

(5) Ni fydd nifer yr ymddiriedolwyr yn llai na thri ond (oni bai y pennir fel arall gan benderfyniad yr elusen mewn cyfarfod cyffredinol) ni fydd yn amodol ar unrhyw uchafswm.

(6) Yr ymddiriedolwyr cyntaf (gan gynnwys swyddogion) fydd y bobl hynny sy'n cael eu hethol fel ymddiriedolwyr a swyddogion yn y cyfarfod lle mae'r cyfansoddiad hwn yn cael ei fabwysiadu.

(7) Ni all ymddiriedolwr benodi unrhyw un i weithredu ar ei ran yng nghyfarfodydd yr ymddiriedolwyr.

Erthygl 18 - Mae *Hyd i Ymddiriedolwyr Newydd: Yr hyn y mae angen i elusennau* wybod (CC30) yn cynnig arweiniad ar ddulliau effeithiol o recriwtio ymddiriedolwyr elusen a'u hymgyfarwyddo â'r elusen.

18. Penodi ymddiriedolwyr

(1) Bydd yr elusen mewn cyfarfod cyffredinol yn ethol y swyddogion a'r ymddiriedolwyr eraill.

(2) Gall yr ymddiriedolwyr benodi unrhyw un sy'n barod i weithredu fel ymddiriedolwr. Yn amodol ar is-gymal 5(b) y cymal hwn, gallant hefyd benodi ymddiriedolwyr i weithredu fel swyddogion.

(3) Bydd pob un o'r ymddiriedolwyr yn ymddeol o ddiwedd y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf ar ôl ei benodi ond byddant yn gymwys i'w ailethol yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol hwnnw.

(4) Ni all unrhyw un gael ei ethol fel ymddiriedolwr neu swyddog mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol blynyddol oni bai bod hysbysiad yn cael ei roi cyn y cyfarfod i'r elusen sydd:

(a) wedi'i lofnodi gan aelod sydd â hawl i bleidleisio yn y cyfarfod;

(b) yn datgan mai bwriad yr aelod yw cynnig penodi unigolyn fel ymddiriedolwr neu swyddog;

(c) wedi'i lofnodi gan y sawl sydd i'w gynnig i ddangos ei barodrwydd i gael ei benodi.

Nodiadau

Cymal 19 - Mae'n ddoeth pennu'r holl bwerau y bydd eu hangen ar yr elusen fel arfer er mwyn osgoi ansicrwydd ac atgoffa ymddiriedolwyr am yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni pan fyddant yn arfer y pwerau hynny. Mae rhai o'r pwerau hyn yn ymhlyg yn amcanion yr elusen (er enghraifft, os mai'r amcan yw darparu ysgol, mae pŵer ymhlyg gan yr ymddiriedolwyr i brynu adeilad). Rhoddir pwerau eraill trwy statud, dim ond os yw amodau penodol yn cael eu bodloni yn aml. Er enghraifft, mae Deddf Ymddiriedolwyr 2000 yn rhoi pŵer i ymddiriedolwyr gaffael a gwaredu tir, benthyca arian mewn nifer o achosion, dirprwyo'r rhan fwyaf o weinyddiad yr elusen a buddsoddi. Ond, mae rhai pethau y gellir eu gwneud dim ond os yw dogfen lywodraethol yr elusen yn darparu pŵer penodol i'w gwneud.

Is-gymal 19(1)(a) - Mae'r is-gymal hwn yn darparu pŵer cyffredinol i godi arian trwy amryw helaeth o ddulliau. Yr unig gyfyngiad yma yw nid yw'n caniatáu i'r elusen ymgymryd â masnachu parhaol sylweddol at ddiben codi arian. (Caniateir masnachu ar raddfa fach. Mae Tollau Tramor a Chartref EM yn rhoi arweiniad ar sut y caiff mathau gwahanol o fasnachu eu trin o ran treth.) Nid yw telerau'r pŵer hwn yn atal masnachu er mwyn cyflawni amcan yr elusen - er enghraifft, gall elusen addysgol godi ffioedd am y gwasanaethau addysgol a ddarperir.

Is-gymal 19(1)(b) - Mae'r pŵer hwn yn ddefnyddiol os yw'r ymddiriedolwyr yn prynu eiddo naill ai i'w ddefnyddio fel swyddfa neu'n weithredol (e.e. lle chwarae neu safle ysgol). Mae *Prynu Tir* (CC33) yn cynnwys mwy o arweiniad ar y mater hwn. Gweler hefyd nodiadau i is-gymal 19(1)(ch) a chymal 29.

Is-gymal 19(1)(c) - Mae'r pŵer hwn yn golygu bod modd i'r ymddiriedolwyr waredu ag eiddo y mae'r elusen yn berchen arno (er enghraifft, trwy ei werthu neu ei brydlesu). Mae Adrannau 36 a 37 Deddf Elusennau 1993, fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Elusennau 2006, yn gymwys i'r rhan fwyaf o elusennau ac yn mynnu eu bod yn cydymffurfio â rhai amodau er mwyn sicrhau bod eiddo elusen yn cael ei waredu ar y telerau gorau y mae'n rhesymol i'w cael. Mae ein canllaw *Gwerthu Tir Elusennau* (CC28) yn rhoi mwy o wybodaeth am hyn.

Is-gymal 19(1)(ch) - Mae'n rhoi pŵer i'r ymddiriedolwyr fenthyca. Mae hefyd yn egluro os yw'r pŵer hwn yn cynnwys gwarantu'r benthyciad ar dir yr elusen, rhaid i'r ymddiriedolwyr gydymffurfio â gofynion Deddf Elusennau 1993, fel y diwygiwyd gan Ddeddf Elusennau

(5) (a) Ni all penodi ymddiriedolwr, boed gan yr elusen mewn cyfarfod cyffredinol neu gan yr ymddiriedolwyr eraill, olygu bod nifer yr ymddiriedolwyr yn fwy nag unrhyw nifer a bennwyd yn unol â'r cyfansoddiad hwn fel uchafswm nifer yr ymddiriedolwyr.

(b) Ni all yr ymddiriedolwyr benodi unigolyn i fod yn swyddog os yw eisoes wedi cael ei ethol neu ei benodi i'r swydd honno ac nid yw wedi gadael y swydd.

19. Pwerau ymddiriedolwyr

(1) Rhaid i'r ymddiriedolwyr reoli busnes yr elusen ac mae'r pwerau canlynol ganddynt er mwyn hyrwyddo'r amcanion (ond nid ar gyfer unrhyw ddiben arall):

(a) codi arian. Wrth wneud hynny, ni all yr ymddiriedolwyr ymgymryd ag unrhyw weithgaredd masnachu parhaol trethadwy a rhaid iddi gydymffurfio ag unrhyw reoliadau statudol perthnasol;

(b) prynu, cymryd ar brydles neu yn gyfnewid, hurio neu gaffael fel arall unrhyw eiddo a chynnal a chyfarparu'r eiddo i'w ddefnyddio;

(c) gwerthu, gosod ar brydles neu waredu fel arall y cyfan neu unrhyw ran o'r eiddo y mae'r elusen yn berchen arno. Wrth arfer y pŵer hwn, rhaid i'r ymddiriedolwyr gydymffurfio fel y bo'n briodol ag adrannau 36 a 37 Deddf Elusennau 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Elusennau 2006;

(ch) benthyca arian a chodi'r cyfan neu unrhyw ran o'r eiddo y mae'r elusen yn berchen arno fel gwarant ar gyfer ad-dalu'r arian a fenthycwyd. Rhaid i'r ymddiriedolwyr gydymffurfio fel y bo'n briodol ag adrannau 38 a 39 Deddf Elusennau 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Elusennau 2006, os ydynt yn bwriadu morgeisio tir;

(d) cydweithredu ag elusennau, cyrff gwirfoddol ac awdurdodau statudol eraill a chyfnewid gwybodaeth a chyngor â hwy;

(dd) sefydlu neu gefnogi unrhyw ymddiriedolaethau, cymdeithasau neu sefydliadau elusennol a ffurfir at unrhyw un o'r dibenion elusennol sydd wedi'u cynnwys yn yr amcanion;

(e) caffael, cyfuno neu lunio unrhyw bartneriaeth neu drefniadau menter ar y cyd ag unrhyw elusen arall a ffurfiwyd at unrhyw un o'r amcanion;

(f) neilltuo incwm fel cronfa wrth gefn yn erbyn gwariant yn y dyfodol ond dim ond yn unol â pholisi ysgrifenedig ar gronfeydd wrth gefn;

(ff) cael a thalu am nwyddau a gwasanaethau fel y bo angen i ymgymryd â gwaith yr elusen;

Nodiadau

2006. Yn fyr, mae'r Ddeddf yn gofyn i'r ymddiriedolwyr geisio cyngor a darparu rhai datganiadau/ardystiadau pan fyddant yn benthyca arian trwy gyfrwng morgais. Mae ein Canllaw Gweithredol *Benthyca a Morgeisiau* ar ein gwefan yn rhoi gwybodaeth fanwl am hyn.

Is-gymal 19(1)(ff) - Ni ellir defnyddio'r pŵer hwn os yw'r nwyddau neu'r gwasanaethau yn cael eu darparu gan ymddiriedolwr: gweler Cymal 5.

Is-gymal 19(1)(g) - Cyfrifon banc - gall yr ymddiriedolwyr lunio rheolau (o dan gymal 32) i ganiatáu i eraill sy'n gysylltiedig â gweithredu'r elusen megis gweithwyr neu wirfoddolwyr arwyddo sieciau ac archebion eraill mewn perthynas â chyfrifon banc yr elusen ar yr amod bod y gweithgareddau hyn wedi'u rheoli'n briodol er mwyn lleihau'r perygl o dwyll. Er enghraifft, gallai'r ymddiriedolwyr ganiatáu i ddau uwch wirfoddolwr arwyddo sieciau hyd at wynebwerth diffiniedig, gyda therfyn ar gyfanswm gwerth y sieciau y maent wedi'u hawdurdodi i'w harwyddo mewn unrhyw fis. Yn achos elusennau sy'n gweithredu cyfrifon banc electronig, mae canllawiau ar ddyletswyddau ymddiriedolwyr ac arferion gorau gweithredu i'w gweld yn *Rheolaethau Ariannol Mewnol ar gyfer Elusennau* (CC8) ar ein gwefan. O ran dirprwyo a rheoli cronfeydd, mae Deddf Ymddiriedolwyr 2000 yn darparu pwerau buddsoddi eang ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r elusen geisio cyngor ac ystyried yr angen i fuddsoddi mewn amrywiaeth o fuddsoddiadau gwahanol. Mae ein canllaw *Buddsoddi Cronfeydd Elusennol: Egwyddorion Sylfaenol* (CC14) yn rhoi rhagor o wybodaeth am fuddsoddiadau elusennau. Mae'r pwerau i gyflogi asiantau, enwebeion a cheidwaid yn arbennig o ddefnyddiol pan fydd yr elusen yn dymuno defnyddio rheolwr buddsoddi.

Cymal 20 - Mae ein canllaw *Cael Hyd i Ymddiriedolwyr Newydd: Yr hyn y mae angen i elusennau wybod* (CC30) yn esbonio beth mae adran 72 y Ddeddf yn ei gwmpasu. Yn fras, bydd rhywun sydd wedi cael ei ddedfrydu'n euog o droseddau sy'n cynnwys dichell neu dwyll, neu sy'n fethdalwr heb ei ryddhau neu yr ydym ni wedi'i ddiswyddo o'i swydd fel ymddiriedolwr, wedi'i wahardd rhag gweithredu fel ymddiriedolwr.

Cymal 21 - Darparwn arweiniad pellach ar gyfarfodydd yn *Elusennau a Chyfarfodydd* (CC48).

(g) agor a gweithredu cyfrifon banc a chyfrifon eraill y mae'r ymddiriedolwyr yn barnu eu bod yn ofynnol a buddsoddi cronfeydd a dirprwyo rheoli cronfeydd yn yr un modd ac yn ddarostyngedig i'r un amodau ag y mae ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth wedi'u caniatáu i'w wneud gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000;

(ng) gwneud yr holl bethau cyfreithiol eraill sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r amcanion.

(2) Ni fydd newid y cyfansoddiad hwn neu unrhyw benderfyniad arbennig yn cael effaith ôl-weithredol i annilysu unrhyw weithred flaenorol yr ymddiriedolwyr.

(3) Gall unrhyw gyfarfod yr ymddiriedolwyr lle mae cworwm yn bresennol pan fydd y penderfyniad perthnasol yn cael ei wneud arfer yr holl bwerau y gall yr ymddiriedolwyr eu harfer.

20. Gwahardd a diswyddo ymddiriedolwyr

Bydd ymddiriedolwr yn peidio â dal swydd os yw ef neu hi:

(1) wedi'i anghymhwyso rhag gweithredu fel ymddiriedolwr trwy rinwedd adran 72 Deddf Elusennau 1993 (neu unrhyw ailddeddfiad statudol neu addasiad o'r ddarpariaeth honno);

(2) yn peidio â bod yn aelod o'r elusen;

(3) yn analluog oherwydd anhwylder meddyliol, salwch neu anaf ac yn methu â rheoli a gweinyddu ei fusnes ei hun;

(4) yn ymddiswyddo fel ymddiriedolwr trwy roi hysbysiad i'r elusen (ond dim ond os bydd o leiaf dau ymddiriedolwr yn parhau yn y swydd pan fydd yr hysbysiad i ymddiswyddo yn weithredol); neu

(5) os yw'n absennol heb ganiatâd yr ymddiriedolwyr o bob un o'u cyfarfodydd a gynhelir o fewn cyfnod o chwe mis yn olynol ac mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu y dylai adael ei swydd.

21. Gweithrediadau ymddiriedolwyr

(1) Gall yr ymddiriedolwyr reoleiddio eu gweithrediadau fel y gwelant yn dda, yn amodol ar ddarpariaethau'r cyfansoddiad hwn.

(2) Gall unrhyw ymddiriedolwr alw cyfarfod o'r ymddiriedolwyr.

(3) Rhaid i'r ysgrifennydd alw cyfarfod o'r ymddiriedolwyr os yw ymddiriedolwr yn gofyn iddo/iddi wneud hynny.

(4) Rhaid i gwestiynau sy'n codi mewn cyfarfod gael eu penderfynu gan fwyafrif o'r pleidleisiau.

(5) Yn achos pleidleisiau cyfartal, bydd gan y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

(6) Ni all unrhyw benderfyniad gael ei wneud gan gyfarfod o'r ymddiriedolwyr oni bai bod cworwm yn bresennol ar yr adeg y mae'r penderfyniad yn cael ei wneud.

Nodiadau

Is-gymal 21(7) - Os yw cyfanswm yr ymddiriedolwyr yn fan canol rhwng dau rif y gellir ei rannu â thri, argymhellwn fod y rhif yn cael ei dalgrynnu i fyny i'r lluosrif nesaf o dri.

(7) Bydd y cworwm yn ddwy neu'r rhif agosaf i un rhan o dair o gyfanswm nifer yr ymddiriedolwyr, p'un bynnag yw'r mwyaf neu rif mwy a all gael ei benderfynu o bryd i'w gilydd gan yr ymddiriedolwyr.

(8) Ni chaiff ymddiriedolwr ei gyfrif yn y cworwm sy'n bresennol pan fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud ynghylch mater nad oes hawl gan yr ymddiriedolwr hwnnw bleidleisio arno.

(9) Os yw nifer yr ymddiriedolwyr yn llai na'r nifer a bennwyd fel y cworwm, gall yr ymddiriedolwyr neu'r ymddiriedolwr sy'n parhau i weithredu ar gyfer y pwrpas o lenwi swyddi gwag neu alw cyfarfod cyffredinol yn unig.

(10) Bydd y sawl a etholir fel y Cadeirydd yn cadeirio cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr.

(11) Os nad yw'r Cadeirydd yn barod i lywyddu neu nid yw'n bresennol o fewn deg munud ar ôl yr amser a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod, gall yr ymddiriedolwyr sy'n bresennol benodi un o'u plith i gadeirio'r cyfarfod hwnnw.

(12) Ni fydd gan y sawl a benodir i gadeirio cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr unrhyw swyddogaethau neu bwerau ac eithrio'r rhai a roddir gan y cyfansoddiad hwn neu sydd wedi'u dirprwyo iddo neu iddi yn ysgrifenedig gan yr ymddiriedolwyr.

(13) Bydd penderfyniad ysgrifenedig wedi'i arwyddo gan bob un o'r ymddiriedolwyr sydd â hawl i dderbyn rhybudd o gyfarfod yr ymddiriedolwyr neu bwyllgor yr ymddiriedolwyr a phleidleisio ar y penderfyniad yn ddilys ac yn effeithiol fel pe byddai wedi cael ei basio yng nghyfarfod yr ymddiriedolwyr neu (yn ôl yr achos) pwyllgor yr ymddiriedolwyr a gynullwyd ac a gynhaliwyd yn briodol.

(14) Gall y penderfyniad ysgrifenedig gynnwys sawl dogfen sy'n cynnwys testun y penderfyniad mewn ffurf debyg, pob un wedi'i harwyddo gan un neu ragor o'r ymddiriedolwyr.

Cymal 22 - Mae hyn yn adlewyrchu arfer da ar reoli gwrthdaro buddiannau a gwrthdaro teyrngarwch.

22. Gwrthdaro buddiannau a gwrthdaro teyrngarwch

Mae'n rhaid i ymddiriedolwr elusen;

(1) datgan natur a graddfa unrhyw fudd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sydd ganddo neu ganddi mewn trafodiad neu drefniadau arfaethedig â'r elusen neu mewn unrhyw drafodiad neu drefniadau'r elusen sydd heb eu datgan cyn hynny; a

(2) bod yn absennol o unrhyw drafodaethau'r ymddiriedolwyr elusen lle mae'n bosibl y bydd gwrthdaro rhwng ei ddyletswydd i weithredu er lles yr elusen yn unig ac unrhyw fudd personol (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i unrhyw fudd ariannol personol).

Ni all unrhyw ymddiriedolwr elusen sy'n absennol o unrhyw drafodaethau yn unol â'r cymal hwn bleidleisio neu gael ei gyfrif fel rhan o'r cworwm mewn unrhyw benderfyniad yr ymddiriedolwyr elusen ar y mater.

Nodiadau

Cymal 23 - Mae hwn yn lleihau'r risg o benderfyniadau'r ymddiriedolwyr yn cael eu datgan yn annilys am resymau technegol yn unig.

Is-gymal 25(2) - gweler cymal 5 (ac yn arbennig is-gymalau 5(2) a 5(3)) sy'n amlinellu'r cyfyngiadau ar fuddion ymddiriedolwyr a'r drefn i'w dilyn os yw'r elusen am ganiatáu i ymddiriedolwr gael budd.

23. Darpariaethau cadw

(1) Yn amodol ar is-gymal (2) y cymal hwn, bydd pob penderfyniad yr ymddiriedolwyr elusen, neu bwyllgor yr ymddiriedolwyr elusen, yn ddilys er gwaetha'r ffaith bod ymddiriedolwr elusen:

(a) sydd wedi'i anghymhwyso rhag dal swydd;

(b) a oedd wedi ymddiswyddo yn flaenorol neu y bu'n rhaid iddo neu iddo adael y swydd gan y cyfansoddiad hwn;

(c) a oedd heb hawl i bleidleisio ar y mater, oherwydd gwrthdaro buddiannau neu fel arall;

wedi cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais yr ymddiriedolwr elusen, os yw'r penderfyniad heb bleidlais yr ymddiriedolwr elusen hwnnw a chyfrif yr ymddiriedolwr elusen yn y cworwm, wedi cael ei wneud gan fwyafrif o'r ymddiriedolwr elusen mewn cyfarfod â chworwm.

(2) Nid yw is-gymal (1) y cymal hwn yn caniatáu i ymddiriedolwr elusen gadw unrhyw fudd y gall unrhyw benderfyniad yr ymddiriedolwr elusen neu bwyllgor yr ymddiriedolwyr elusen ei roi iddo neu iddi pe byddai'r penderfyniad, heblaw am is-gymal (1), wedi bod yn annilys, neu os nad yw'r ymddiriedolwyr elusen wedi cydymffurfio ag erthygl 22 (Gwrthdaro buddiannau a gwrthdaro teyrngarwch).

24. Dirprwyo

(1) Gall yr ymddiriedolwyr ddirprwyo unrhyw rai o'u pwerau neu eu swyddogaethau i bwyllgor o ddau neu ragor o'r ymddiriedolwyr ond rhaid i delerau unrhyw ddirprwyaeth o'r fath gael ei chofnodi yn y llyfr cofnodion.

(2) Gall yr ymddiriedolwyr osod amodau wrth ddirprwyo, gan gynnwys yr amodau canlynol:

(a) y caiff y pwerau perthnasol eu harfer gan y pwyllgor dirprwyedig yn unig;

(b) ni all unrhyw wariant ddod i ran yr elusen ac eithrio yn unol â chyllideb y cytunwyd arno yn flaenorol â'r ymddiriedolwyr.

(3) Gall yr ymddiriedolwyr ddiddymu neu newid dirprwyaeth.

(4) Rhaid i holl weithredoedd a gweithrediadau unrhyw bwyllgorau gael eu hadrodd yn llawn ac yn brydlon i'r ymddiriedolwyr.

25. Anghysondebau mewn gweithrediadau

(1) Yn amodol ar is-gymal (2) y cymal hwn, bydd yr holl weithrediadau a wneir gan gyfarfod yr ymddiriedolwyr, neu bwyllgor yr ymddiriedolwyr, yn ddilys er bod ymddiriedolwr:

(a) a oedd wedi'i anghymhwyso rhag dal swydd;

(b) a oedd wedi ymddiswyddo yn flaenorol neu yr oedd yn ofynnol iddo adael y swydd yn ôl y cyfansoddiad;

(c) a oedd heb hawl i bleidleisio ar y mater, oherwydd gwrthdaro buddiannau neu fel arall;

wedi cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais, os yw'r penderfyniad heb:

(ch) pleidlais yr ymddiriedolwr hwnnw; a

(d) chyfrif yr ymddiriedolwr hwnnw yn y cworwm

wedi cael ei wneud gan fwyafrif yr ymddiriedolwyr mewn cyfarfod sydd â chworwm.

(2) Nid yw is-gymal (1) y cymal hwn yn caniatáu i ymddiriedolwr gadw unrhyw fudd a all gael ei roi iddo neu iddi gan benderfyniad yr ymddiriedolwyr neu bwyllgor yr ymddiriedolwyr pe byddai'r penderfyniad wedi bod yn annilys fel arall.

(3) Ni fydd unrhyw benderfyniad neu weithred

(a) yr ymddiriedolwyr

(b) unrhyw bwyllgor yr ymddiriedolwyr

(c) yr elusen mewn cyfarfod cyffredinol

yn ddi-rym oherwydd bod yr elusen heb roi rhybudd i unrhyw ymddiriedolwr neu aelod neu oherwydd unrhyw ddiffyg gweithdrefnol yn y cyfarfod oni bai y dangosir bod y methiant neu'r diffyg wedi rhagfarnu yn sylweddol yn erbyn aelod neu fuddiolwyr yr elusen.

Cymal 26 - Gan ddefnyddio'r pŵer i lunio rheolau yng nghymal 32, gall yr ymddiriedolwyr benderfynu ym mha fformat y dylid cadw'r cofnodion a sut i'w dilysu.

26. Cofnodion

Rhaid i'r ymddiriedolwyr gadw cofnodion ar gyfer:

(1) pob swyddog ac ymddiriedolwr y mae'r ymddiriedolwyr yn ei benodi;

(2) trafodion cyfarfodydd yr elusen;

(3) cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr a phwyllgorau'r ymddiriedolwyr gan gynnwys:

(a) enwau'r ymddiriedolwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod;

(b) y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y cyfarfodydd; a

(c) lle y bo'n briodol, y rhesymau dros y penderfyniadau.

Cymal 27 - Mae'r prif ofynion cyfrifyddu ar gyfer elusennau wedi'u nodi ar ein gwefan. Rhaid i bob elusen gofrestredig sydd ag incwm o fwy na £10,000 anfon cyfrifon, Adroddiad Blynyddol a Ffurflen Flynyddol i'r Comisiwn Elusennau cyn pen 10 mis o ddiwedd eu blwyddyn ariannol.

Is-gymal 27(1)(d) - Mae'r Ffurflen Flynyddol yn darparu crynodeb o'r data ariannol allweddol ac fe'i defnyddir gan y Comisiwn at ddibenion monitro i ganfod materion a allai fod angen ein sylw neu ein harweiniad.

27. Cyfrifon, Adroddiad Blynyddol, Ffurflen Flynyddol

(1) Rhaid i'r ymddiriedolwyr gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan Ddeddf Elusennau 1993 mewn perthynas â:

(a) cadw cofnodion cyfrifyddu ar gyfer yr elusen;

(b) paratoi datganiadau o gyfrifon blynyddol ar gyfer yr elusen;

(c) rhoi datganiadau o gyfrifon i'r Comisiwn;

(ch) paratoi Adroddiad Blynyddol a'i roi i'r Comisiwn;

(d) pharatoi Ffurflen Flynyddol a'i rhoi i'r Comisiwn.

Is-gymal 27(2) - Mae'r Datganiad o Arferion Cymeradwy ar gyfer elusennau (SORP 2005) ar gael ar ein gwefan neu gallwch ei brynu ar ffurf copi caled o'r cyhoeddwyr, CCH. Rhif ffôn eu gwasanaethau cwsmeriaid yw 0844 561 8166.

Cymal 28 - Mae cofnod elusen yn cynnwys ei henw, cyfeiriad y gohebydd, amcanion a dogfen lywodraethol (ac unrhyw ddiwygiad) ac enwau ei hymddiriedolwyr. Mae'r Comisiwn yn anfon ffurflen Diweddariad Blynyddol a Ffurflen Flynyddol i bob elusen er mwyn iddynt nodi'r manylion hyn, ond dylid darparu newidiadau i fanylion y gohebydd cyn gynted â phosib.

Cymal 29 - Pan fydd ymddiriedolwyr yn prynu tir ar gyfer yr elusen, ni all yr elusen berchen ar y tir yn uniongyrchol oherwydd nid oes hunaniaeth gyfreithiol ar wahân ganddi. Felly bydd angen i'r ymddiriedolwyr sicrhau bod teitl i dir yr elusen yn cael ei ddal yn enw unigolion ('ymddiriedolwyr dal') neu gwmni, ar ymddiriedolaeth ar ran yr elusen. Fel arfer gall hyn fod yn rhai o'r ymddiriedolwyr neu bob un ohonynt, y Ceidwad Swyddogol i Elusennau (gweler ein canllaw *Gwasanaeth Dal Tir y Ceidwad Swyddogol i Elusennau* (CC13)) neu'n enwebai.

Cymal 30 - Dyma'r gofynion lleiaf a dylai ymddiriedolwyr ystyried a oes angen unrhyw fathau eraill o yswiriant.

(2) Rhaid i gyfrifon gael eu paratoi yn unol â darpariaethau unrhyw Ddatganiad o Arferion Cymeradwy a gyhoeddir gan y Comisiwn, oni bai ei bod yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon yn unol â darpariaethau Datganiad o'r fath a baratowyd gan gorff arall.

28. Manylion cofrestredig

Rhaid i'r ymddiriedolwyr hysbysu'r Comisiwn ar unwaith am unrhyw newidiadau i gofnod yr elusen ar y Gofrestr Ganolog Elusennau.

29. Eiddo

(1) Rhaid i'r ymddiriedolwyr sicrhau bod y teitl i:

(a) yr holl dir a ddelir gan neu ar ymddiriedolaeth ar gyfer yr elusen sydd heb ei freinio yn y Ceidwad Swyddogol i Elusennau; a

(b) pob buddsoddiad a ddelir gan neu ar ran yr elusen,

yn cael ei freinio naill ai mewn corfforaeth sydd â hawl i weithredu fel ymddiriedolwr gwarchod neu mewn dim llai na thri unigolyn a benodir ganddynt fel ymddiriedolwyr daliannol.

(2) Rhaid i delerau penodi unrhyw ymddiriedolwyr daliannol ddarparu y gallant weithredu yn unol â chyfarwyddiadau cyfreithiol yr ymddiriedolwyr yn unig ac os ydynt yn gwneud hynny ni fyddant yn atebol am weithredoedd a diffygion yr ymddiriedolwyr neu aelodau'r elusen.

(3) Gall yr ymddiriedolwyr ddiswyddo'r ymddiriedolwyr daliannol unrhyw bryd.

30. Cynnal a chadw ac yswiriant

Rhaid i'r ymddiriedolwyr gynnal a chadw ac yswirio i'w gwerth llawn holl adeiladau'r elusen yn erbyn tân a risgiau arferol eraill (ac eithrio'r adeiladau hynny y mae'n ofynnol i denant eu cynnal a'u cadw a'u hyswirio). Rhaid iddynt hefyd yswirio'n addas ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus ac atebolrwydd cyflogwyr.

31. Hysbysiadau

(1) Rhaid i unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol gan y cyfansoddiad hwn i'w roi i neu gan unrhyw unigolyn fod:

(a) yn ysgrifenedig; neu

(b) cael ei roi trwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig.

(2) Gall yr elusen roi unrhyw hysbysiad i aelod naill ai:

(a) yn bersonol; neu

(b) trwy ei anfon trwy'r post mewn amlen ragdaledig wedi'i chyfeirio at yr aelod yn ei gyfeiriad; neu

(c) trwy ei adael yng nghyfeiriad yr aelod; neu

(ch) trwy ei roi trwy ddulliau cyfathrebu electronig i gyfeiriad yr aelod.

(3) Ni fydd hawl gan aelod nad yw'n cofrestru cyfeiriad gyda'r elusen neu sy'n cofrestru cyfeiriad post yn unig nad yw o fewn y Deyrnas Unedig dderbyn unrhyw hysbysiad gan yr elusen.

(4) Ystyrir y bydd aelod sy'n bresennol yn bersonol mewn unrhyw gyfarfod yr elusen wedi cael hysbysiad o'r cyfarfod ac i ba bwrpas y galwyd y cyfarfod.

(5) (a) Bydd prawf bod amlen sy'n cynnwys hysbysiad wedi cael ei chyfeirio'n briodol, yn rhagdaledig ac wedi'i phostio yn dystiolaeth derfynol bod hysbysiad wedi'i roi.

(b) Bydd prawf bod hysbysiad mewn gohebiaeth electronig wedi cael ei anfon yn unol â'r arweiniad a roddwyd gan Sefydliad yr Ysgrifenyddion a'r Gweinyddwyr Siartredig yn dystiolaeth derfynol bod hysbysiad wedi'i roi.

(c) Bernir bod hysbysiad wedi cael ei roi 48 awr ar ôl i'r amlen sy'n ei gynnwys gael ei phostio neu, yn achos cyfathrebu electronig, 48 awr ar ôl iddo gael ei anfon.

32. Rheolau

Cymal 32 - Mewn gwirionedd y rheolau yw'r gweithdrefnau mewnol a fabwysiedir gan yr ymddiriedolwyr ar gyfer gweinyddu'r elusen yn briodol. Ni ellir eu defnyddio i newid unrhyw un o'r darpariaethau yn y cyfansoddiad hwn. Mae cymal 7 y cyfansoddiad hwn yn amlinellu'r drefn ar gyfer diwygio darpariaethau'r cyfansoddiad hwn.

(1) Gall yr ymddiriedolwyr, o bryd i'w gilydd, lunio rheolau neu is-ddeddfau ar gyfer ymgymryd â'u busnes.

(2) Gall yr is-ddeddfau reoleiddio'r materion canlynol ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

(a) derbyn aelodau'r elusen (gan gynnwys derbyn sefydliadau fel aelodau) a hawliau a breintiau aelodau o'r fath, a'r ffioedd aelodaeth, tanysgrifiadau a ffioedd neu daliadau eraill y bydd yr aelodau yn eu talu;

(b) y ffordd y mae aelodau'r elusen yn ymddwyn tuag at ei gilydd, a thuag at weithwyr a gwirfoddolwyr yr elusen;

(c) neilltuo'r cyfan neu unrhyw ran neu rannau o adeiladau'r elusen ar unrhyw adeg neu adegau arbennig neu at unrhyw ddiben neu ddibenion arbennig;

(ch) y drefn mewn cyfarfodydd cyffredinol a chyfarfodydd yr ymddiriedolwyr ar yr amod nad yw trefn o'r fath wedi'i rheoleiddio gan y cyfansoddiad hwn;

Is-gymal 32(2)(d) - Mae Deddf Cyfathrebu Electronig 2000 a Rheoliadau Llofnodion Electronig 2002 yn caniatáu i lofnodion electronig gael eu derbyn fel tystiolaeth, gyda rhai amodau. Mae'r is-gymal hwn yn crynhoi'r amodau hyn.

(d) cadw a dilysu cofnodion. (Os yw rheoliadau a luniwyd o dan y cymal hwn yn caniatáu i gofnodion yr elusen gael eu cadw ar ffurf electronig ac mae'n ofynnol i ymddiriedolwr arwyddo'r cofnod, rhaid i'r rheoliadau bennu dull o gofnodi'r llofnod sy'n golygu bod modd iddo gael ei ddilysu'n briodol).

(dd) yn gyffredinol, pob mater sydd fel arfer yn destun rheolau cymdeithas anghorfforedig.

(3) Mewn cyfarfod cyffredinol mae pŵer gan yr elusen i newid, ychwanegu at neu ddiddymu'r rheolau neu'r is-ddeddfau.

(4) Rhaid i'r ymddiriedolwyr fabwysiadu dull sy'n ddigonol yn eu barn nhw i ddwyn y rheolau a'r is-ddeddfau at sylw aelodau'r elusen.

(5) Bydd y rheolau neu'r is-ddeddfau yn gyfrwymol ar bob aelod o'r elusen. Bydd pob rheol neu is-ddeddf yn cydymffurfio ag unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y cyfansoddiad hwn, ac ni fydd yn effeithio ar unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y cyfansoddiad hwn neu'n ei ddiddymu.

Cymal 33 - Mae'n arfer da i gynnwys darpariaethau ar gyfer delio ag unrhyw anghydfodau sy'n codi rhwng aelodau'r elusen. Gall cyfreitha fod yn ddrud, a byddai cyfreitha am faterion mewnol elusen bron yn sicr yn cael ei ystyried yn 'drafodion elusen', y gellir eu cymryd dim ond gydag awdurdod y Comisiwn. Fel arfer byddem yn gofyn i'r partïon mewn anghydfod geisio cyfryngu yn gyntaf.

33. Anghydfodau

Os oes anghydfod rhwng yr aelodau'r elusen am ddilysrwydd neu briodoldeb unrhyw beth sy'n cael ei wneud gan yr aelodau o dan y cyfansoddiad hwn, ac nid oes modd datrys yr anghydfod drwy gytundeb, mae'n rhaid i'r partïon mewn anghydfod geisio setlo'r anghydfod mewn ewyllys da yn gyntaf drwy gyfryngu cyn troi at gyfreitha.

34. Dehongli

Ystyr 'unigolyn cysylltiedig' yn y cyfansoddiad hwn yw:

(1) plentyn, rhiant, wyrion, neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd yr ymddiriedolwr;

(2) gŵr neu wraig neu bartner sifil yr ymddiriedolwr neu unrhyw un sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymal (1) uchod;

(3) rhywun sy'n ymgymryd â busnes mewn partneriaeth â'r ymddiriedolwr neu unrhyw unigolyn sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymal (1) neu (2) uchod;

(4) sefydliad sydd wedi'i reoli -

(a) gan yr ymddiriedolwr neu unrhyw unigolyn cysylltiedig sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymal (1), (2) neu (3) uchod neu

(b) gan ddau unigolyn neu ragor sydd wedi'u cynnwys o fewn is-gymal (4)(a), gyda'i gilydd

(5) corff corfforaethol lle mae gan -

(a) yr ymddiriedolwr elusen neu unrhyw unigolyn cysylltiedig sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymalau (1) i (3) fudd sylweddol, neu

(b) dau unigolyn neu ragor sydd wedi'u cynnwys o fewn is-gymal (5)(a), gyda'i gilydd, fudd sylweddol.

(6) Mae paragraffau 2 i 4 o Atodlen 5 i Ddeddf Elusennau 1993 yn gymwys at ddibenion dehongli'r telerau a ddefnyddir yn yr is-gymal hwn.

Llofnodion

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

© Hawlfraint y Goron 2009. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Crëwyd a chynhyrchwyd gan: Adran Ddylunio, Comisiwn Etholiadol

Cewch fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

Comisiwn Elusennau
Ffôn: **0845 300 0218**
Typetalk: **0845 300 0219**
Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**

Cymdeithasau Elusennol: Cyfansoddiad Enghreifftiol. Mehefin 2011.

GD3